Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylchoedd Chwarae Ysgol Ardwyn
# Ysgol y Babanod Ardwyn
# Redbank
# Trallwng
# SY21 7PW

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**


**Mr Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/06/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylchoedd Chwarae Ysgol Ardwyn yn ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg a dwyieithog i blant cyn oedran ysgol ac yn cynnig gofal drwy`r dydd. Mae`r sesiynau yn y bore yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg a`r sesiynau prynhawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae`r cylchoedd chwarae wedi`u lleoli ym Meithrinfa ac Ysgol y Babanod Ysgol Ardwyn ar safle sy`n edrych dros dref y Trallwng, Canolbarth Cymru. Caiff y cylchoedd chwarae, a ffurfiwyd yn sgîl uno Cylch Chwarae Ardwyn a Chylch Meithrin y Trallwng, eu rhedeg gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr sydd wedi`i reoli`n wirfoddol ac yn Gwmni Cyfyngedig Elusennol.

Ar hyn o bryd, mae 43 o blant ar y gofrestr, gyda 19 ohonynt yn 3 oed ac yn cael eu hariannu. Mae 12 o`r plant sy`n cael eu hariannu yn mynychu sesiynau`r bore (cyfrwng Saesneg) a 7 yn mynychu`r sesiynau prynhawn (cyfrwng Cymraeg). Mae`r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer i fyny at 18 o blant.

Mae`r cylchoedd chwarae yn gweithredu rhwng 9 y.b. a 11.30 y.b. ar Ddydd Llun i Ddydd Gwener a rhwng 12.30 y.p. a 3 y.p. ar Ddydd Llun i Ddydd Iau yn ystod tymor yr ysgol yn ogystal â`r ddwy wythnos gyntaf yn ystod gwyliau`r haf.

Mae'r grwpiau chwarae yn cael eu gweinyddu gan reolwr sydd hefyd yn Ysgrifennydd y Cwmni. Mae'r gyfundrefn addysgol yn cael ei horuchwylio gan arweinydd chwarae gyda chymorth ei dirprwy, cynorthwywyr chwarae a chynorthwywyr chwarae meithrin dan hyfforddiant.

Daw`r plant sy`n mynychu`r cylchoedd chwarae o dref y Trallwng a`r pentrefi cyfagos a`r ardal wledig. Mae eu cefndiroedd yn amrywio gyda rhai yn dod o gartrefi cymdeithasol-economaidd ddifreintiedig. Daw rhai o`r plant o gefndir cymuned Ewropeaidd. Mae`r cylchoedd chwarae yn derbyn plant pa beth bynnag yw eu cefndir ac yn y gorffennol mae hyn wedi cynnwys plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Does dim plentyn sy`n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf ac er bod ychydig o rieni yn siarad Cymraeg, does neb yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn unig. Mae pob plentyn yn siarad Saesneg yn rhugl ac eithrio ychydig o gefndir Gymuned Ewropeaidd.

Mae`r plant yn mynychu`r cylchoedd chwarae unwaith byddant yn 2 oed gan adael fel arfer ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn y tymor maen nhw`n 4 oed. O bryd i`w gilydd, os mae`r rhieni yn dymuno, efallai bydd plentyn yn aros yn y cylch chwarae am gyfnod yn hirach.

Mae`r cyfleusterau, staff a`r cynllunio yn union yr un fath i`r ddau grŵp – yr unig wahaniaeth yw`r iaith sy`n cael ei defnyddio. Mae`r ystafell ddysgu yn fawr ac yn olau gyda`r dodrefn a`r adnoddau priodol i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn y coridor sy`n arwain at yr ystafell caiff wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni ei harddangos. Mae cyfleusterau da ar gyfer hongian cotiau a chyfleusterau

toiled i un ochr o`r coridor, ond yr anfantais yw bod rhaid i oedolyn fynd gyda phlentyn i`r toiledau.

Mae ardal fach ar gael i chwarae tu allan ond rhaid i rywun fynd gyda`r plant i`w defnyddio.  Mae trefniadau ar y gweill i ail-leoli`r cylchoedd chwarae o fewn y safle. Bydd hyn yn gwella`r mynediad ac yn darparu mynediad uniongyrchol i`r tu allan ar gyfer y plant gan gynnig mwy o ddewis o weithgareddau iddynt.

Mae`r cylchoedd chwarae yn gysylltiaedig â CDC Cymru ac yn aelod o`r Mudiad Meithrin.  Cafwyd y wobr Cylch Rhagorol yn 2012.  Cafodd y cylchoedd chwarae ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSW) ym Mawrth 2013.  Nid oedd unrhyw brif argymhellion.  Cafwyd arolygiad gan Estyn yn 2007 ac mae'r argymhellion wedi derbyn sylw.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y cylchoedd chwarae yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o`r plant yn cyflawni`n dda ac yn gwneud cynnydd da;
- ethos o feithrin o fewn y cylchoedd sy`n cefnogi`r safonau uchel ar ran lles y plant;
- y cynllunio o`r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau`r plant;
- ansawdd yr addysgu`n dda;
- yr holl blant yn ymddwyn yn dda;
- mae`r plant yn cael gofal da ac yn cael eu parchu fel unigolion;
- y rhieni yn gefnogol iawn;
- yr arweinyddiaeth a`r rheolaeth yn dda.

### Rhagolygon gwella

***Prif arfarniad***

Mae rhagolygon gwella`r cylchoedd chwarae`n dda oherwydd bod:

- staff yn gweithio`n dda fel tîm i greu amgylchedd dysgu bywiog;
- gan y lleoliad weledigaeth glir ar gyfer ei ddyfodol sy`n canolbwyntio ar y ddarpariaeth orau ar gyfer y plant;
- y staff yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol a bod cyrsiau o`r fath yn gwella`r ddarpariaeth addysgol;
- rhieni ac ymddiriedolwyr yn gefnogol iawn o`r lleoliad ac yn cymryd rhan weithredol mewn sicrhau gwelliannau er lles y plant;
- yr arweinyddiaeth a`r rheolaeth yn dda.

## Argymhellion

**Mae angen i'r lleoliad:**

A1 parhau i gynnig darpariaeth o ansawdd da i`r plant.

A2 edrych am ffyrdd o wella safon y plant yn yr iaith Gymraeg, yn enwedig safonau yn y grwpiau cyfrwng Cymraeg yn y prynhawn.

A3 cymryd cyfleoedd i arolygu enghreifftiau o arfer da a rhagorol ac ymgorffori`r rhain lle bo modd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob plentyn, yn y ddau grŵp, yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ar draws y cwricwlwm. Mae gan yr holl blant agweddau da tuag at ddysgu gan gymryd rhan yn gyson yn y gweithgareddau a osodir ar eu cyfer a chanolbwyntio a meddwl am eu tasgau.

Mae gan bob plentyn yn y ddau grŵp fedrau cyfathrebu da. Mae ganddynt eirfa da ac yn mynegi eu hun yn glir yn Saesneg. Mae`r plant yn mwynhau gwrando ar storïau yn fawr gan gymryd rhan yn frwdfrydig mewn caneuon actol a rhigymau. Mae pob un yn cymryd sylw ac yn ymateb i awgrymiadau a chyfarwyddidadau yn brydlon ac yn fodlon. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac mae llawer yn gallu adnabod cymeriadau mewn llyfrau sy`n cael eu darllen iddynt.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dewis cyfleoedd i arbrofi gyda phenseli, creonau a sialc i greu marciau fel rhagflaenydd i ysgrifennu ac yn gwybod am rai o swyddogaethau ysgrifennu.

Mae pob plentyn yn cyfrif, er enghraifft wrth gyfrif y plant sy`n bresennol, ac mae rhai yn medru rhifo set o wrthrychau yn gywir. Mae ychydig o blant yn dechrau adnabod ac ail-adrodd patrymau syml. Mae gan lawer o blant fedrau TGCh da mewn perthynas a`u hoedran. Maen nhw`n defnyddio offer digidol ac roedd ychydig o blant wedi dangos medrau cyfrifiadurol da er enghraifft drwy ddefnyddio`r lygoden gyfrifiadurol i symud eiconau ar y sgrîn.

Mae medrau`r plant yn yr iath Gymraeg yn amrywiol. Mae`r grŵp cyfrwng Saesneg yn deall rhai geiriau a chyfarwyddiadau yn y Gymraeg – maen nhw`n deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Mae llawer o blant yn ail-ddweud geiriau cyfarwydd maen nhw`n clywed gan oedolion. Maen nhw`n ymateb yn brydlon i gyfarwyddiadau. Nodwedd nodedig o`u datblygiad iaith yw`r ffordd maen nhw`n cymryd rhan ac yn mwynhau caneuon a rhigymau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae eu cymhwysedd mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad.

Mae`r grŵp cyfrwng Cymraeg yn amharod i ddefnyddio`r iaith ar wahan i eiriau sylfaenol fel rhifau a lliwiau. Mae rhai o`r plant yn ymateb heb anogaeth, fel wrth ateb "Pa liw ?" Mae`r plant yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad ac yn hapus i ailadrodd geiriau maen nhw`n clywed gan lais cyfarwydd. Mae`r grŵp hwn yn mwynhau cymryd rhan mewn caneuon actol yn y Gymraeg gan wneud hyn gyda brwdfrydedd. Maen nhw`n mwynhau storïau ac edrych ar lyfrau. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn arbrofi i greu marciau gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol ac yn gwybod rhai o swyddogaethau ysgrifennu. Drwyddi draw, mae cymhwysedd y plant hyn yn yr iaith Gymraeg mewn cyfnod cynnar o ddatblygaid.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl blant agweddau cadarnhaol at ddysgu gan ddangos diddordeb yn eu gwaith. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn cymryd rhan yn eu tasgau gyda brwdfrydedd ac yn cynnal eu gallu i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae ymddygiad y plant yn dda ac maen nhw`n ymwneud â`i gilydd a gydag oedolion eraill yn dda.

Mae gan y rhan fwyaf o`r plant ddealltwriaeth briodol o`r angen i gadw`n lân, fel drwy olchi eu dwylo cyn bwyd. Roedd rhai plant, mewn trafodaeth, yn enwi bwydydd iach gan gynnwys ffrwythau a llysiau.

Mae`r lleoliad yn cynnig amgylchedd diogel i`r plant sy`n rhydd oddi wrth unrhyw oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol ac fe adlewyrchir hyn yn ymddygiad ac agweddau`r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd sy`n sicrhau bod y staff yn cymryd rhan weithredol ac yn gwybod beth yw eu rolau a`u cyfrifoldebau. Mae`r gweithdrefnau cynllunio`n debyg i`r grwpiau Saesneg a Chymraeg. Nodwedd da a nodedig o`r broses cynllunio yw cynnwys y plant mewn ymarfer casglu syniadau sy`n digwydd cyn cynllunio`n fanwl. Mae hyn yn sicrhau cynnwys y plant yn llwyddiannus yn y gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio.

Mae`r profiadau dysgu wedi`u cynllunio`n dda i alluogi`r plant i wneud cynnydd tuag at gyrraedd deilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Mae system gweithwyr allweddol y lleoliad yn rhoi cyfrifoldeb i`r staff dros nifer fach o blant sy`n sicrhau bod y cwricwlwm sy`n cael ei ddysgu yn adeiladu`n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

Mae`r plant yn caffael eu medrau allweddol a sylfaenol ar raddfa dda ac yn eu defnyddio i gael mynediad i bob maes dysgu. Mae`r berthynas yn dda, caiff y plant eu parchu fel unigolion ac mae`r staff yn sensitif i`w hanghenion. Mae`r plant yn oddefgar ac yn dangos hunan hyder i weithio`n annibynnol. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn rhoi digon o gyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol a dealltwriaeth o`r byd.

Mae`r grwpiau cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn cael cyflwyniad da i draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru. Yn ogystal â dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn draddodiadol, mae`r plant yn gyfarwydd â Santes Dwynwen ac wedi astudio cestyll Cymru.

Prif ffocws y grŵp prynhawn yw`r datblygiad o`u gallu yn yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn cael ei gynllunio a llwyddiant nodedig yw gallu`r plant i ganu caneuon actol a rhigymau yn Gymraeg. Mae hyn yn chwarae rhan arwyddocaol wrth ddatblygu eu hiaith a`u cymhelliad i ddysgu`r iaith Gymraeg. Mae`r cynllunio yn annog y plant i ddefnyddio`r iaith gymaint ag sy`n bosib ac mae`r plant yn dechrau defnyddio geiriau

Cymraeg yn naturiol, fel wrth enwi lliwiau gwrthrychau.  Mae`r grŵp cyfrwng Saesneg yn y bore yn elwa o ddefnydd achlysurol y staff o`r Gymraeg.

Mae`r holl blant yn cael cyfleoedd i ddysgu am ail-gylchu.  Roedd ail-gylchu yn thema yn ddiweddar ac roedd hyn yn cyd-fynd â ffocws y dref ar ail-gylchu.  Mae`r plant yn ymwybodol o`r gwahanol ddeunyddiau sy`n gallu cael eu hail-gylchu.

**Addysgu:  Da**

Mae`r staff yn brofiadol ym maes gofal a datblygiad plant ac yn deall athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.  Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn a chaiff y disgwyliadau yma eu gwireddu yn ymarferol.  Mae`r plant yn profi amrywiaeth eang o brofiadau, tu fewn a thu allan i`r dosbarth.  Caiff yr holl blant eu cefnogi`n dda gan oedolion.  O bryd i`w gilydd, byddai`r plant yn elwa o lai o gefnogaeth gan oedolion er mwyn datblygu eu hannibynniaeth.  Fodd bynnag, mae`r staff yn fodelau iaith dda a rhaid eu canmol am eu defnydd o`r iaith Gymraeg a`r ymdrech a wnaed ganddynt i ddysgu`r iaith.  Caiff cwestiynau eu defnyddio`n dda i atgyfnerthu`r dysgu ac i herio`r plant.

Un agwedd arbennig o dda o`r addysgu yw pan fydd plant yn dewis eu llyfr stori i fynd adre gyda nhw.  Mae hyn yn aml yn cynnwys plant yn siarad â'i gilydd am eu hoff a chas bethau, yn ogystal â bod yn gymhelliad i rieni ddarllen gyda'u plant.

Asesir plant yn rheolaidd gan gofnodi sylwadau.  Mae hyn yn rhoi mesur da o gynnydd y plant i`r lleoliad.  Mae hefyd yn nodi'r hyn y mae plant wedi'i gyflawni.  Mae`r gweithwyr allweddol yn adnabod eu plant yn dda a gallant gyfeirio`r addysgu at y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.  Mae`r rhieni yn cael gwybodaeth am y cwricwlwm ac yn cael mynediad at gofnod cynnydd eu plant.  Mae gwybodaeth o'r fath yn eu helpu i gefnogi eu plant ac i fod yn ymwybodol o'r cynnydd y maent wedi ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.  Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus.  Mae gan y plant ddealltwriaeth dda o beth sy'n gywir ac yn anghywir ac yn ymddwyn yn unol â hynny.  Mae llawer o blant yn dangos menter, fel wrth glirio offer heibio ar ddiwedd y sesiwn.  Yn eu gweithgareddau, mae`r plant yn hapus i rannu gydag eraill ac yn parchu hyn y mae plant eraill yn ei wneud.

Mae'r lleoliad yn darparu arweiniad i rieni a phlant pan fo angen.  Mae'r staff yn sensitif i anghenion y plant a gwneir defnydd da o wasanaethau arbenigol proffesiynol pan fo angen.  Mae'r rhain wedi cynnwys cyfraniadau gan, er enghraifft, therapyddion lleferydd a ffisiotherapyddion.  Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn dda.  Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant diweddar ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.  Mae'r lleoliad yn ddiogel ac mae`r drws allanol ar glo i sicrhau y gall neb ddod i mewn heb rybudd.  Mae'r lleoliad yn wyliadwrus wrth nodi unrhyw blentyn a allai fod mewn perygl.  Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid yw`n rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae`r plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad llawn i bob maes dysgu. Mae`r rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn llawn ac mae'r lleoliad yn sicrhau bod plant o'r fath yn cael eu cefnogi'n dda ac yn cael cymorth arbenigol yn ôl yr angen. Mae`r plant ag ADY yn cael cymorth ac mae`r targedau penodol a nodwyd ar eu cyfer yn eu Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu cam wrth gam.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad ethos cynhwysol da lle mae staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion unigol. Mae plant sydd wedi ymuno â'r cylchoedd chwarae yn ddiweddar yn cael eu cefnogi'n dda sy`n eu helpu i ddod yn rhan o'r grŵp. Mae agwedd oddefgar yn treiddio`r ddau grŵp ac mae pob plentyn yn rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch ac ymddygiad gormesol. Mae pob plentyn, beth bynnag eu cefndir, yn mwynhau cyfleoedd cyfartal. Byddai'r lleoliad presennol yn achosi rhai problemau ar gyfer plant ag anableddau corfforol, ond mae`r lleoliad newydd yn fwy addas ar gyfer plant o'r fath.

Mae'r cylchoedd chwarae wedi eu staffio'n dda ac mae`r ymarferwyr yn brofiadol. Mae gan y staff gymwysterau priodol ac wedi mynychu cyrsiau perthnasol. Mae'r adnoddau yn ddigonol ac yn addas i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r llety presennol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac mewn cyflwr da.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm ac mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae`r staff yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion sy`n canolbwyntio ar ddarparu'r ddarpariaeth addysgol orau i'r plant. Mae pob un yn cyfrannu at gynllunio strategol. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r plant ac yn rhoi cymorth da i blant dan amheuaeth o fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff newydd a myfyrwyr ar leoliad yn cael cyfnodau addas o sefydlu ac mae gwerthuso rheolaidd o`r staff yn cael ei ddefnyddio yn adeiladol i nodi datblygiad proffesiynol y staff.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda rhieni yn eu lle ac maent yn cael eu hannog i gefnogi dysgu eu plant.

Mae gan y lleoliad fwrdd gweithredol o ymddiriedolwyr. Maent yn cael eu hysbysu'n dda am berfformiad y lleoliad ac maen nhw`n ddylanwadol o ran cynnal safonau a sicrhau gwelliannau. Mae rheolaeth y cylchoedd chwarae o ddydd-i-ddydd gan reolwr y feithrinfa ac ysgrifennydd y cwmni yn digwydd yn effeithlon.

Mae'r lleoliad yn llwyddo i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys sefydlu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu wedi eu sefydlu'n dda ac mae'r lleoliad yn hunanfeirniadol. Mae hunanarfarnu wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac yn sicrhau y bydd y canlyniadau yn rhoi enillion cadarnhaol ar gyfer y plant. Nodwedd dda a nodedig yw ymrwymiad ymddiriedolwyr, staff a rhieni i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae hyn yn amlwg iawn yn y gwaith sydd ar y gweill i ail-leoli'r cylchoedd chwarae i ran arall o'r adeilad. Mae`n bosibl y bydd hyn yn darparu gwell fynediad a chyfleusterau ar gyfer y plant.

Mae`r wybodaeth a geir yn yr hunanarfarnu wedi galluogi bod cynlluniau wedi`u blaenoriaethu; mae strategaethau yn eu lle ac ar y gweill i sicrhau gwelliant.

Mae'r holl staff wedi mynychu ystod eang o gyrsiau datblygu proffesiynol sydd wedi bod o fudd i'r plant o ran gwella'r ddarpariaeth addysgol. Mae'r lleoliad hefyd yn cymryd rhan weithredol yn lleol trwy ddod ag ymarferwyr o feithrinfeydd a chylchoedd chwarae eraill at ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda rhieni, sydd, mewn trafodaeth, yn gefnogol iawn o'r cylchoedd chwarae. Caiff rhieni eu cynnwys yn llawn mewn unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â'u plant. Ceir cysylltiadau agos ac effeithiol gyda'r ysgol fabanod sy'n derbyn y plant. Mae'r plant yn adnabod yr athrawes feithrin ac mae agosrwydd y dosbarth meithrin yn hwyluso trosglwyddiad y plant. Mae cysylltiadau effeithiol yn eu lle gyda gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu defnyddio yn ôl yr angen i gefnogi plant ag anghenion penodol.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n dda ac yn derbyn cymorth effeithiol gan sefydliadau proffesiynol gan gynnwys CDC Cymru, Mudiad Meithrin a gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Defnyddir ymarferwyr ac adnoddau yn dda i gymell plant i ddysgu. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion adnoddau yn y dyfodol ac yn cynllunio yn unol â hynny. Ar hyn o bryd mae ardal fach yn yr awyr agored sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol. Mae`r cyllid yn cael ei reoli'n effeithlon ac mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd 14 ymateb i holiaduron y rhieni.  Gofynnwyd i`r rhieni ymateb i 16 o ddatganiadau yn nhermau "cytuno`n gryf, cytuno, anghytuno, anghytuno`n gryf neu ddim yn gwybod".

Dyma grynodeb o`r ymatebion:

Mae mwy na 75% yn cytuno â`r canlynol:

*Rwy'n fodlon â'r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi`r lleoliad hwn.*
*Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.*
*Mae`r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.*
*Mae'r addysgu yn dda.*
*Mae'r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.*
*Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.*
*Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.*
*Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Rwy`n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.*
*Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.*
*Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.*

Roedd dros 90% yn cytuno`n gryf gyda`r canlynol:

*Rwy'n fodlon â'r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi`r lleoliad hwn.*
*Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.*
*Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.*

Nid oedd un o`r rhieni yn anghytuno neu`n anghytuno`n gryf ag unrhyw un o`r datganiadau.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae`r plant yn mwynhau dod i`r cylchoedd chwarae ac mae`r mwyafrif yn cymryd rhan weithredol yn fuan.  Maen nhw`n mwynhau`r gweithgareddau, yn enwedig amser stori a chaneuon actol.  Wrth sgwrsio,  dywedodd y plant eu bod yn mwynhau cwrdd â`u ffrindiau a chwarae gyda nhw.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |